

Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Delweddu Diagnostig, Ysbyty
Llwynhelyg, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 30 a 31 Ionawr 2024

Dyddiad cyhoeddi: 02 Mai 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf.....	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	13
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	21
4. Y camau nesaf.....	24
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
Atodiad C - Cynllun gwella.....	27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Delweddu Diagnostig yn Ysbyty Llwynhelyg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 30 a 31 Ionawr 2024. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried y ffordd roedd yr adran yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Uwch-swyddog Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 104 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 36 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau o fynychu'r Adran Pelydr-X.

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion â chwarteisi, parch a charedigrwydd. Roedd yr adborth gan gleifion hefyd yn cefnogi hyn. Gwelsom hefyd fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth ac wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent yn eu gofal.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r deunydd gwybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys iaith rywedd-gynhwysol
- Sicrhau y caiff pob darn o wybodaeth i gleifion ei gyfieithu'n briodol i'r Gymraeg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd y cleifion adborth a sylwadau cadarnhaol am agwedd a dull gweithredu'r staff sy'n gofalu amdanynt
- Dywedodd y cleifion wrthym nad oedd yn rhaid iddynt aros yn hir am eu harchwiliad neu sgan.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn gwella cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017, ym mhob rhan o'r Adran Pelydr-X.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau effeithiol ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gweithredu system rheoli dogfennau effeithiol ar gyfer gweithdrefnau a phrotocolau IR(ME)R y cyflogwr
- Gwella'r system ar gyfer rheoli hawliau pob deiliad dyletswydd

- Gwella'r weithdrefn ar gyfer ymholi a phrofi am feichiogrwydd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Roedd tîm optimeiddio delweddau gweithredol yn rhan o'r adran Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT), a oedd yn arddangos dull optimeiddio rhagweithiol, gan gynnwys lleihau dosau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Prif Weithredwr y bwrdd iechyd oedd y cyflogwr dynodedig o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a chafodd llinellau adrodd a chyfrifoldeb clir eu disgrifio a'u dangos.

Dangosodd y staff eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir i ymgymryd â'u priod rolau yn yr adran.

Er bod adborth y staff yn gadarnhaol ar y cyfan, cafwyd rhai ymatebion a sylwadau negyddol gan staff roedd angen mynd i'r afael â nhw.

Mae'r grwpiau lefelau cyfeirio diagnostig yn gweithio i sefydlu grwpiau lefelau cyfeirio diagnostig lleol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Er bod rhai aelodau o'r staff yn deall ystyr y ddyletswydd gonestrwydd, nid oeddent wedi cael yr hyfforddiant priodol yn gyson
- Mae angen i'r bwrdd iechyd weithredu i ymdrin â'r sylwadau llai ffafriol a nodwyd yn adran 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y broses cadw cofnodion o safon briodol
- Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant ar Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn dda
- Disgrifiwyd trefniadau addas ac effeithiol er mwyn ceisio adborth gan gleifion, ar gyfer rheoli pryderon a chwynion, ac i weithredu ar y rhain i wneud gwelliannau lle bo angen.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofawyr. Cafwyd cyfanswm o 104 o ymatebion. Cafwyd ymatebion cadarnhaol ym mhob maes, gyda phob ymatebydd yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' (95/102) neu'n 'dda' (7/102).

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Staff cyfeillgar sy'n barod i helpu.”

“Cefais fy siomi ar yr ochr orau gan y weithdrefn gyfan - y terfynau amser a'r driniaeth. Roedd y staff yn broffesiynol ac yn gefnogol. Profiad a oedd, ar y cyfan, yn rhoi tawelwch meddwl.”

“Hapus iawn â'r gwasanaeth - doedd dim diffygion.”

“Mae'r staff o dan bwysau eithriadol i ateb y galw. Rwy'n clywed eu bod yn cael eu llethu gan waith, ac nid yw hyn yn ddiogel nac yn ddelfrydol. Byddai cael staff wrth gefn yn ddefnyddiol ac yn fuddiol dros ben i'r bobl sy'n helpu i ofalu am bobl eraill.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd deunydd hybu iechyd perthnasol yn cael ei arddangos ym mhob ardal aros.

Roedd posteri'n cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybodaeth i gleifion am y broses o gael archwiliad pelydr-X ac yn eu cynghori i hysbysu staff os oeddent o bosibl yn feichiog neu os oeddent yn bwydo ar y fron. Roedd y posteri hyn yn cael eu harddangos yn Gymraeg a Saesneg. Roedd gwybodaeth berthnasol ar gael i'r cleifion am fanteision a risgiau cysylltiedig y cysylltiad bwriadol.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn gwrtais ac yn trin y cleifion â pharch. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i hyrwyddo preifatrwydd y cleifion a nodwyd gennym fod y staff yn ymdrechu i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch a bod camau yn cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd. Nododd pob un o'r ymatebwyr hefyd eu bod yn gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb fod cleifion eraill yn eu clywed a dywedodd pob ymatebydd ond un bod y staff yn gwrando arnynt.

Pan ofynnwyd iddynt a yw preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal, roedd pob aelod ond un o'r staff a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno. Roedd pob aelod o'r staff ond dau a atebodd yn cytuno eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn ei roi i gleifion. Roedd llai o'r staff yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan eu hysbyty ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu (24/36).

Gofal wedi'i Deilwra at yr Unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr ond dau a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am eu harchwiliad neu sgan. Yn ogystal, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am bwy i gysylltu â nhw i gael cyngor yn dilyn eu harchwiliad neu sgan.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu harchwiliad neu sgan. Yn yr un modd, dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud, a bod y staff wedi gwrando arnynt ac ateb eu cwestiynau.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y cleifion yn cael eu hysbysu am benderfyniadau am eu gofal a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

Amserol

Gofal Amserol

Gwelwyd bod y cleifion sy'n mynychu'r adran pelydr-X yn yr ysbyty yn cael gofal amserol. Ni welsom niferoedd mawr o gleifion yn aros am eu harchwiliad.

Nodwyd gennym fod hysbysiad clir a oedd yn hysbysu'r cleifion y dylid rhoi gwybod i'r staff os oeddent wedi bod yn aros mwy nag 20 munud. Gwnaethom hefyd nodi bod arwydd yn nodi pa mor hir y gallai fod yn rhaid iddynt aros am ganlyniadau eu harchwiliad pelydr-X.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn yr arolwg yn cytuno fod yr amser aros rhwng yr atgyfeiriad a'r apwyntiad yn rhesymol. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi cael gwybod yn yr adran pa mor hir y byddai'n debygol y byddai'n rhaid iddynt aros, roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn yr adran. Gwelsom arwyddion dwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg. Roedd posterï dwyieithog yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion wedi'u harddangos yn glir yn yr adran.

Gwelsom fod y staff yn ymdrechu i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Roedd staff a oedd yn siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau neu laniardau i nodi hynny. Cadarnhaodd y staff y byddent yn cyfarch cleifion yn Gymraeg a phe byddai cleifion neu ymwelwyr yn siaradwyr Cymraeg, byddai modd parhau â'r sgwrs yn Gymraeg.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (28/36) wrthym nad oeddent yn siarad Cymraeg. Pan ofynnwyd a oeddent yn gwisgo bathodyn neu laniard i ddweud wrth y cleifion eu bod yn fodlon cyfathrebu yn y Gymraeg, dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiwn (6/8) wrthym eu bod yn gwneud hynny, weithiau o leiaf.

Gwelsom fod y llythyrau apwyntiadau ar gyfer sganiau CT a oedd yn cael eu hanfon at gleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond nad oedd y fersiwn Gymraeg yn adlewyrchu'r fersiwn Saesneg. Yn y llythyrau hyn, roedd sylwadau y gellid ystyried eu bod yn amhriodol erbyn hyn o ran beth y dylai menywod a dynion ei wisgo.

Gellid gwella'r iaith a ddefnyddir mewn perthynas â dillad a rhywedd. Dylai'r adran adolygu'r wybodaeth yn y taflenni a'r llythyrau apwyntiadau a'i diweddarau.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw rai o'r trefniadau sydd ar waith i helpu pobl ag anawsterau clywed a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Roeddent yn ymwybodol o'r gwasanaeth cyfieithu a oedd ar gael.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod y staff sy'n gweithio yn yr adran pelydr-X yn gweithio mewn ffordd a oedd yn amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn orfodol ar gyfer pob aelod o'r staff.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cwblhau'r cwrs hwn ar-lein.

Roedd yr adran yn hygyrch ac yn cynnwys drysau llydan, coridorau clir ac ystafelloedd pelydr-X mawr â mynediad gwastad.

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo hawliau'r cleifion pan fyddent yn mynychu'r adran. Gwnaethant gadarnhau'r trefniadau sydd ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sefydliad.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (ni waeth beth fo'u hoedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol), dywedodd 94/99 o'r cleifion a atebodd y cwestiwn hwn eu bod wedi gallu gwneud hynny.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Dyletswyddau'r Cyflogwr: Sefydlu Gweithdrefnau, Protocolau a Rhaglenni Sicrhau Ansawdd Cyffredinol

Gweithdrefnau a Phrotocolau

Gofynnodd AGIC am dystiolaeth o system rheoli dogfennau effeithiol a chyson ar gyfer y gweithdrefnau a'r protocolau ysgrifenedig sydd ar waith gan y cyflogwr. Nid oedd system o'r fath ar waith.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod pob darn o ddogfennaeth, gan gynnwys protocolau a pholisïau ysgrifenedig, yn rhan o raglen Sicrhau Ansawdd ar gyfer dogfennaeth a'i bod yn cynnwys y manylion gofynnol fel y nodir yng ngweithdrefn y cyflogwr ar gyfer rheoli dogfennau.

Canllawiau Atgyfeirio

Edrychodd AGIC ar y ddogfennaeth a'r gweithdrefnau mewn perthynas ag atgyfeiriadau a'r canllawiau atgyfeirio. Disgrifiodd y staff y canllawiau. Gwnaethom gadarnhau ag aelodau o'r staff yn yr adran bod arferion atgyfeirwyr yn adlewyrchu gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr yn gywir.

Lefelau Cyfeirio Diagnostig

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas ar waith ar gyfer defnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig.

Gwnaethom gadarnhau bod amrywiaeth eang o lefelau cyfeirio diagnostig lleol wedi cael eu rhoi ar waith. Roedd y rhain yn cyfateb i'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol neu'n is, a nodwyd gennym fod yr arfer hwn yn arfer canmoladwy.

Cysylltiadau Ymchwil

Dywedwyd wrthym fod gwaith ymchwil yn ymwneud â chysylltiadau meddygol yn cael ei gynnal yn yr Adran. Cafodd trefniadau llywodraethu addas eu disgrifio ar gyfer treialon ymchwil, ac roedd Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn cael eu cynnwys yn briodol.

Disgrifiwyd trefniadau addas hefyd ar gyfer rheoli treialon clinigol, gan gynnwys dynodi atgyfeirwyr yn gywir a dewis y protocol perthnasol i'w ddefnyddio yn gywir.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith a oedd yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu hyn.

Hawliau

Cadarnhaodd y staff bod y broses rhoi hawl a ddisgrifir yng ngweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar waith ar gyfer atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr newydd sy'n ymuno â'r ysbyty.

Daethom i'r casgliad bod hawliau deiliaid dyletswydd wedi cael eu harddel yn unol â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer deiliaid dyletswydd a oedd wedi ymuno â'r adran yn ddiweddar o dan y tîm rheoli newydd. Fodd bynnag, roedd diffyg tystiolaeth i ddangos bod y broses hon wedi cael ei dilyn a'i chynnal yn gyson ar gyfer deiliaid dyletswydd a ymunodd â'r ysbyty fel atgyfeirwyr, ymarferwyr neu weithredwyr yn y gorffennol. Er enghraifft, gwnaethom adolygu tystiolaeth o atgyfeirwyr meddygol sy'n feddygon teulu na chofnodwyd unrhyw faes ymarfer ar eu cyfer, nac unrhyw dystiolaeth fod y cyflogwr wedi rhoi hawliau iddynt.

Cadarnhaodd yr uwch-arweinwyr bod carfan hanesyddol o grwpiau staff na roddwyd yr hawliau priodol iddynt weithredu fel atgyfeirwyr, ymarferwyr neu weithredwyr. Nododd y staff a oedd yn bresennol na fu cytundeb eto, gan y bwrdd iechyd cyfan, o ran sut i gwblhau'r broses hon. Rhaid mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth.

Rhaid i'r cyflogwr gadarnhau sut y bydd yn rheoli hawliau pob deiliad dyletswydd (meddygol, anfeddygol a darparwyr trydydd parti ym mhob rhan o Ysbyty Llwynhelyg ac ar safleoedd ehangach y bwrdd iechyd). Rhaid iddo ddarparu cynllun gweithredu sy'n nodi pryd y bydd y broses hon yn cael ei chwblhau a'r trefniadau lliniaru sydd ar waith yn y cyfamser i hyrwyddo diogelwch cleifion.

Adnabod Cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith i sicrhau bod yr unigolyn a fyddai'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio fel rhan o archwiliadau a gyflawnir yn yr adran yn cael ei adnabod yn gywir. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys manylion y camau i'w cymryd gan ddeiliaid dyletswydd lle na all cleifion nodi pwy ydynt. Yn ogystal, roedd yn ymdrin â'r sefyllfaedd hynny lle mae mwy nag un gweithredwr yn gysylltiedig â'r archwiliad.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y camau y byddent yn eu cymryd i adnabod cleifion yn gywir cyn cyflawni archwiliadau. Roedd hyn yn gyson â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr perthnasol.

Unigolion o Oedran Beichiogi (Holi am Feichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer holi unigolion o oedran beichiogi er mwyn canfod a yw'r unigolyn yn feichiog, neu o bosibl yn feichiog, neu'n bwydo ar y fron ar gyfer archwiliadau sy'n cael eu cyflawni yn yr Adran. Gwnaethom nodi y gallai rhai gwelliannau gael eu gwneud i egluro'r gweithdrefnau ysgrifenedig mewn perthynas â'r broses holi am feichiogrwydd.

Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r siart lif holi am feichiogrwydd a gweithdrefn y cyflogwr er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth o ran rhywedd a chynwysoldeb o ran iaith.

Trafodwyd y ffordd y defnyddir profion beichiogrwydd ar gyfer archwiliadau radioleg ag aelodau o'r staff. Rhoddodd y staff sicrwydd nad oedd profion beichiogrwydd yn cael eu cynnal gan staff radioleg. Pe bai unrhyw gwestiynau'n codi yn sgil y siart lif holi am feichiogrwydd, byddai prawf beichiogrwydd yn cael ei gynnal gan staff yr Adran Achosion Brys. Rhoddwyd sicrwydd fod y profion hyn, fel mater o drefn, bellach yn cael eu cynnal ar ffurf prawf gwaed gan fod y dull hwn yn fwy sensitif (diweddarwyd y weithdrefn yn dilyn digwyddiad). Awgrymwyd y dylid cytuno ar y broses â'r Adran Achosion Brys ac y dylid rhoi dull cadarn ar waith ar gyfer rhannu canlyniadau profion. Dylid dogfennu'r gwiriad proses ychwanegol hwn yng ngweithdrefn holi am feichiogrwydd y cyflogwr i'r staff ei ddilyn.

Rhaid i weithdrefn holi am feichiogrwydd y cyflogwr gael ei diweddarau er mwyn sicrhau ei bod yn cyfeirio at yr amgylchiadau lle y dylid ystyried cynnal prawf beichiogrwydd, yr unigolyn a ddylai gynnal y prawf a'r ffordd y caiff canlyniadau'r prawf eu rhannu'n effeithiol.

Manteision a Risgiau

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhoi gwybodaeth ddigonol i gleifion am fanteision cael yr archwiliad (cysylltiad) a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dos ymbelydredd. Gwelsom fod posteri sy'n esbonio'r risg a'r manteision wedi'u harddangos yn glir yn yr ardaloedd aros.

Gwnaethom edrych ar daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cael ei rhoi i gleifion fel rhan o'u hapwyntiad, cyn iddynt gael sgan CT, ac roedd gwybodaeth am y manteision a'r risgiau wedi'i chynnwys yn y daflen. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai staff yn ailadrodd y wybodaeth hon i gleifion ar lafar pan fyddent yn dod am eu harchwiliad.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth am fanteision neu risgiau eu harchwiliad neu sgan.

Gwerthusiadau Clinigol

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth a'r prosesau mewn perthynas â gwerthusiadau clinigol. Roedd hyn yn cynnwys y broses ar gyfer monitro trydydd partïon, hyfforddiant, datblygiad a'r broses gwerthuso clinigol ar gyfer staff yn effeithiol. Ni chawsom sicrwydd bod y cofnodion hyfforddiant, y cofnodion cymhwysedd na'r cofnodion rhoi hawl yn ddigonol nac yn cael eu monitro ar gyfer rhai o'r atgyfeirwyr anfeddygol a oedd wedi cael eu nodi fel unigolion â'r hawl i gynnal gwerthusiad clinigol ac i weithredu'n unol â'u gwerthusiad i drin cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a diweddarau'r broses a'r cofnodion ar gyfer pob atgyfeiriwr anfeddygol sy'n cynnal gwerthusiadau clinigol mewn perthynas â radiograffeg y frest, fflworosgopeg a radiograffeg gyhyrsgerberbydol cyffredinol. Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau eu bod wedi cael yr hyfforddiant priodol, eu bod yn gymwys a'u bod wedi cael caniatâd y Cyflogwr i gynnal y swyddogaethau hyn.

Cysylltiadau â Delweddu Anfeddygol

Gwnaethom edrych ar broses y cyflogwr ar gyfer atgyfeirio a rheoli cysylltiadau anfeddygol. Cadarnhaodd y staff bod radiograffwyr yn awdurdodi cysylltiadau anfeddygol o dan ganllawiau ac y caiff atgyfeiriadau anfeddygol ar gyfer sganiau CT eu cyfiawnhau a'u hawdurdodi gan radiolegwyr.

Dyletswyddau'r Cyflogwr - Archwiliad Clinigol

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o archwiliadau clinigol fel rhan o'r arolygiad hwn. Gwelsom dystiolaeth o ddulliau effeithiol ar gyfer rhannu adborth o archwiliadau'r radiograffydd fel rhan o'r sgrymiau boreol a chyfarfodydd briffio'r tîm. Nodwyd bod y templed ar gyfer yr adroddiad archwilio a oedd wedi cael ei roi ar waith yn ddiweddar ac a gaiff ei ddefnyddio i ddadansoddi digwyddiadau yn enghraifft o arfer da.

Gwnaethom edrych ar sawl archwiliad gan radiolegwyr a gwelsom nad oedd y cyflwyniadau a rannwyd yn nodi'r camau gweithredu, y gwersi a ddysgwyd na'r amserlenni ar gyfer cynnal archwiliadau yn y dyfodol yn effeithiol.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff canlyniadau a newidiadau i ymarfer yn dilyn archwiliadau clinigol eu dogfennu'n glir ar gyfer y timau amlddisgyblaethol ym mhob rhan o'r adran er mwyn gwneud yn siŵr bod archwiliadau yn dangos y cynlluniau gweithredu, y trefniadau ailarchwilio a'r pwyntiau dysgu yn ddigonol. Dylid rhoi templed cyson ar waith ar gyfer adroddiadau archwilio ar gyfer pob archwiliad clinigol a gaiff ei gynnal gan yr adran radioleg ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Dyletswyddau'r Cyflogwr - Cysylltiadau Damweiniol neu Anfwriadol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig glir a strwythuredig ar waith ar gyfer adrodd ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sy'n ymwneud ag ymbelydredd, eu cofnodi, ymchwilio iddynt a'u dadansoddi. Roedd y weithdrefn yn cynnwys yr holl brosesau perthnasol sy'n ofynnol gan y bwrdd iechyd ac AGIC.

Roedd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r prosesau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol.

Roedd prosesau llywodraethu clir ar waith i'r staff eu dilyn ar gyfer cofnodi a dadansoddi cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol neu gamgymeriadau a fu bron â digwydd.

Dyletswyddau'r Ymarferydd, y Gweithredwr a'r Atgyfeiriwr

Gwnaethom edrych ar weithdrefn ysgrifenedig glir a strwythuredig y cyflogwr a oedd yn rhoi arweiniad ar wneud atgyfeiriad ar gyfer cysylltiadau meddygol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn dda.

Darparodd y Cyflogwr dystiolaeth o archwiliadau Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) priodol er mwyn dangos bod deiliaid dyletswydd yn dilyn gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr.

Cyfiawnhad dros Gysylltiadau Unigol

Roedd canllawiau awdurdodi clir a strwythuredig a oedd yn cynnwys meini prawf clir ar waith ar gyfer cynnal sgan CT, ac roedd gweithdrefn y cyflogwr ar gael i'w dilyn o ran y prosesau cyfiawnhau ac awdurdodi.

Optimeiddio

Disgrifiwyd y trefniadau o ran sut mae ymarferwyr a gweithredwyr yn sicrhau bod y cysylltiadau a gynhelir yn yr Adran pelydr-X mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys sut mae ymarferwyr a gweithredwyr yn rhoi sylw penodol mewn perthynas ag unigolion lle na ellid diystyru beichiogrwydd a chysylltiadau sy'n cynnwys dosau uchel i'r unigolyn.

Gwnaethom nodi gwaith y tîm optimeiddio delweddau gweithredol ar gyfer cynnal sgan CT. Er ei bod yn braf gweld bod gwaith yn mynd rhagddo i safoni protocolau tomograffeg gyfrifiadurol ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan, gwnaethom hefyd nodi nad oedd y protocolau wedi cael eu safoni eto. Awgrymodd AGIC y dylai'r tîm amlddisgyblaethol gyfrannu at waith y tîm optimeiddio delweddau gweithredol ac y dylid sicrhau cymorth i roi'r gwaith optimeiddio hwn ar waith er mwyn sicrhau cytundeb a chymeradwyaeth radiolegwyr ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Roedd

yn braf nodi bod radiolegwyr yn rhan o'r trefniadau ar gyfer bwrw ati â'r gwaith hwn.

Pediatreg

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff fod archwiliadau pelydr-X yn cael eu cynnal ar gleifion pediatrig yn yr adran. Roedd protocolau ysgrifenedig ar gael ar gyfer delweddu pediatrig. Dywedodd y staff y byddai'r protocolau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn neu pe bai unrhyw newid i ymarfer. Dywedwyd wrthym y byddai radiograffwyr yn defnyddio'r cyfarpar radiograffeg digidol lle bynnag y bo'n bosibl wrth ddelweddu cleifion pediatrig er mwyn sicrhau bod y dosau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Gwelsom fod ardal aros briodol yn benodol i blant. Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o staff yr adran yn awyddus i wella'r profiad i blant y mae angen delweddu diagnostig arnynt. Gwnaethom edrych ar lyfr i blant a oedd wedi cael ei ysgrifennu gan aelod o staff yr adran. Roedd y llyfr lluniau hwn ar gael i helpu plant sy'n dod i'r adran i gael archwiliad pelydr-X / sgan ac i roi gwybodaeth iddynt am y broses. Nodwyd bod hyn yn arfer da a chanmoladwy.

Gofalwyr neu Gysurwyr

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig addas ar waith gan y cyflogwr i bennu cyfyngiadau dosau a rhoi canllawiau ar gysylltiadau a fyddai'n effeithio ar ofalwyr neu gysurwyr yn yr Adran Pelydr-X.

Cyngor Arbenigol

Gwnaethom gadarnhau fod y cyflogwr ar gyfer yr adran pelydr-X wedi penodi arbenigwyr ffiseg feddygol ac wedi rhoi'r hawl iddynt roi cyngor ar faterion diogelu rhag ymbelydredd a chydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Cyfarpar: Dyletswyddau Cyffredinol y Cyflogwr

Gwnaethom edrych ar y rhestr o gyfarpar a oedd wedi'i chwblhau'n ofalus er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth a oedd yn ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Diogel

Rheoli Risg

Er bod rhywfaint o waith adeiladu'n cael ei wneud mewn rhannau o'r adran, roedd yn ymddangos bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn

cyflwr da. Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon amlwg i iechyd a diogelwch y staff sy'n gweithio yn yr adran nac i'r cleifion neu unigolion eraill sy'n ymweld â'r adran.

Roedd arwyddion clir yn hysbysu'r cleifion ac ymwelwyr na ddylid mynd i mewn i'r ardaloedd a reolir pan oedd ymbelydredd ïoneiddio yn cael ei ddefnyddio.

Dywedwyd wrthym fod hysbysiadau diogelwch, rhybuddion a gohebiaeth arall yn cael eu rhannu drwy e-bost ag arweinwyr dulliau er mwyn gallu eu rhannu â'u timau. Roeddent yn cael eu rhannu yn ystod sgrymiau tîm, drwy hysbysiadau a thrwy negeseuon electronig uniongyrchol.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod trefniadau atal a rheoli heintiau a dihalogi addas ar waith yn yr ysbyty. Roedd pob ardal yr oedd modd i gleifion fynd iddi yn ymddangos yn lân ac yn daclus.

Roedd y cyfarpar hefyd yn ymddangos yn lân a disgrifiodd y staff weithdrefnau glanhau a dihalogi addas.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn yr ystafelloedd archwilio a chadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod modd iddynt gael gafael ar gyfarpar diogelu personol addas yn hwylus. Gwelsom hefyd fod weips glanhau ar gael i ddihalogi cyfarpar a rennir a dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'u rôl yn hyn o beth.

O safbwynt cyfarpar diogelu personol, roedd pob aelod ond un o'r staff yn cytuno bod cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol wedi bod ar gael iddynt. Roedd pob un ond tri o'r aelodau o staff a atebodd yn cytuno bod trefniadau dihalogi ar waith ar gyfer cyfarpar ac ardaloedd perthnasol.

Roedd tystiolaeth glir i ddangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, gyda lefel gydymffurfiaeth gyffredinol o fwy na 85%. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Roedd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur o'r farn bod yr adran yn lân.

Diogelu Plant a Diogelu Oedolion

Roedd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd a ble i gael gafael arnynt. Roedd y staff hefyd yn gallu disgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryder diogelu.

Cadarnhaodd y cofnodion a welsom ar gyfer pump aelod o'r staff eu bod wedi cwblhau'r lefel briodol o hyfforddiant diogelu.

Effeithiol

Cadw Cofnodion

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer rheoli'r cofnodion a ddefnyddir yn yr adran.

Edrychwyd ar sampl o ddogfennau atgyfeirio pum claf presennol a dogfennau atgyfeirio pum claf ôl-weithredol. Dangosodd y sampl fod y cofnodion atgyfeirio wedi cael eu cwblhau'n llawn i ddangos bod archwiliadau cleifion priodol wedi cael eu cynnal. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau manylion personol y claf, sicrhau digon o fanylion clinigol, holi am statws beichiogrwydd lle bo hynny'n gymwys, roedd y broses gyfiawnhau wedi cael ei dilyn ac roedd atgyfeiriwr sydd â hawliau wedi llofnodi'r atgyfeiriad yn briodol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol, ac roedd pob aelod o'r staff ond dau yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion. Fodd bynnag, roedd llai o'r staff yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan eu hysbyty ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu (24/36). Byddai tri chwarter o'r ymatebwyr yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r lleoliad hwn wedi gwneud rhai newidiadau cadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae angen mwy o le a mwy o gyllid arnom o hyd, ond mae'r pethau sydd wedi cael eu rhoi ar waith hyd yma wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.”

“Mae'r padiau pelydr-X / cymhorthion yn hen a gellid cael rhai newydd yn eu lle”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Y Prif Weithredwr oedd y cyflogwr dynodedig o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Er mai'r cyflogwr oedd yn bennaf cyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau, lle y bo'n briodol, roedd wedi dirprwyo tasgau i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y bwrdd iechyd roi'r Rheoliadau ar waith.

Yn ogystal, roedd strwythur llywodraethu a rheoli clir i'w weld yn yr hunanasesiad a gwblhawyd mewn ffordd glir a chynhwysfawr ac fe'i cyflwynwyd yn unol â'r amserlen hefyd. Dangosodd y tîm rheoli ymrwymiad i ddysgu o ganfyddiadau arolygiad AGIC ac i wella lle y nodwyd bod angen gwneud hynny.

Roedd sylwadau'r staff am reolaeth ac arweinyddiaeth yn gymysg. Fodd bynnag, soniodd llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw am welliannau mewn perthynas â'r diwylliant yn ystod y misoedd diwethaf.

Roedd canlyniadau'r holiaduron staff fel a ganlyn:

- Dywedodd tri chwarter o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle da i weithio ynddo.

- At hynny, dywedodd dwy ran o dair o'r staff wrthym fod eu sefydliad yn gefnogol a'i fod yn cefnogi'r staff i nodi a datrys problemau.
- Dywedodd llai o'r staff wrthym fod y sefydliad yn cymryd camau cyflym i wella pan fo angen (21/36).

Roedd y gweddill yn anghytuno.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried canrannau adborth y staff a llunio cynllun i fynd i'r afael â'r materion.

Pan ofynnwyd am eu rheolwr uniongyrchol, dywedodd dwy ran o dair o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym y gellid dibynnu ar eu rheolwr i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith. Pan ofynnwyd iddynt a oedd eu rheolwr yn rhoi adborth clir iddynt ar eu gwaith, roedd 26/36 ohonynt yn cytuno. At hynny, dywedodd 25/36 wrthym fod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu gwaith. Roedd y gweddill yn anghytuno.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo bod yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion (29/36).

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant gorfodol pump aelod o'r staff a chofnodion hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) dau aelod o'r staff. Roedd y cofnodion hyn yn cynnwys manylion perthnasol ar gyfer yr hyfforddiant a'r hyn a oedd i'w ddisgwyl.

Gwelsom dystiolaeth glir fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol perthnasol i'r lefel ofynnol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant diogelu, symud a chodi a chario yn ddiogel a hyfforddiant atal a rheoli heintiau. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn glir ac roedd system briodol i nodi pryd roedd angen ymgymryd â hyfforddiant.

Roedd y bwrdd iechyd wedi pennu targed o 80% ar gyfer cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Roedd lefel perfformiad gwirioneddol o 90% wedi'i chyflawni ar adeg yr arolygiad.

Y targed ar gyfer arfarniadau (arfarniadau seiliedig ar werth) oedd 80%. Roedd lefel cydymffurfiaeth wirioneddol o 85%. Dywedwyd wrthym fod mwy o arfarniadau wedi'u trefnu.

Disgrifiodd sawl aelod o'r staff brinder staff, a chafwyd cyfeiriadau ato yn yr adborth a roddwyd yn yr holiadur staff. Nodwyd yr heriau y mae Ysbyty Llwynhelyg yn eu hwynebu wrth recriwtio staff. Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff brosesau arloesol cadarnhaol i reoli swyddi gwag ac i gynyddu nifer y staff â'r hyfforddiant priodol yn y dyfodol.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei harddangos yn glir i'r cleifion am sut y gallent roi adborth neu wneud cwyn am eu profiadau o ymweld â'r adran. Roedd proses gwyno GIG Cymru, 'Gweithio i Wella', wedi'i harddangos mewn sawl man, gan gynnwys yn y brif dderbynfa. Roedd cod QR i ddweud "Diolch yn Fawr" wedi'i arddangos i gleifion ei ddefnyddio os oeddent yn fodlon ar eu triniaeth yn yr adran. Roedd hysbysfwrdd a oedd yn cynnwys gwybodaeth "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni" am y ffordd y cafodd adborth gan gleifion ei ddefnyddio i wella gwasanaethau / profiadau hefyd i'w weld yn yr adran.

Roedd y tîm rheoli yn cael gwybod am y cwynion yr ymatebwyd iddynt a'r rhai yr oedd angen ymateb iddynt drwy ddangosfwrdd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (31/34) a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gwybod am y Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall, eu bod yn deall eu rolau o ran cyflawni'r Ddyletswydd a bod eu sefydliad yn eu hannog i godi pryderon ac i ddweud wrth gleifion pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le. Pan wnaethom siarad â rhai aelodau unigol o'r staff yn ystod yr arolygiad, nid oeddent yn gallu cofio cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ac nid oedd rhai ohonynt yn gallu cadarnhau eu dealltwriaeth ar lafar.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau o staff yr adran yn cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Delweddu Diagnostig, Adran Pelydr-X, Ysbyty Llwynhelyg

Dyddiad yr arolygiad: 30 a 31 Ionawr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Delweddu Diagnostig, Adran Pelydr-X, Ysbyty Llwynhelyg

Dyddiad yr arolygiad: 30 a 31 Ionawr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nodwyd gennym y byddai'n fuddiol sicrhau bod gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer holi unigolion o oedran beichiogi er mwyn canfod a yw'r unigolyn yn feichiog, neu o bosibl yn feichiog, neu'n bwydo ar y fron, yn gliriach.	Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio a diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr a rhaid diweddarau siart lif y staff ar gyfer holi am feichiogrwydd er mwyn sicrhau ei bod yn cyfeirio at yr amgylchiadau lle y dylid ystyried cynnal prawf beichiogrwydd a'r ffordd y caiff canlyniadau'r prawf eu rhannu'n effeithiol	IR(ME)R 2017 Rheoliad 6(1)(a) Atodlen 2 (1)(c)	Caiff Gweithdrefn 8 y cyflogwr ei hadolygu a'i diweddarau i adlewyrchu'r amgylchiadau lle dylid ystyried cynnal a chofnodi prawf beichiogrwydd a rhannu'r canlyniad. Camau lliniaru - peidio â derbyn cadarnhad llafar o statws beichiogrwydd, rhaid iddo gael ei ysgrifennu ar y ffurflen gais neu ei wirio drwy Borth Clinigol Cymru yn ystod y cyfnod	Radiograffydd Arolygu'r Safle / Pennaeth Radioleg / Dirprwy Bennaeth Radioleg / Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol	31 Mai 2024

			adolygu. Caiff hyn ei rannu â phob safle.		
Nodwyd gennym y byddai'n fuddiol diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer holi unigolion o oedran beichiogi er mwyn canfod a yw'r unigolyn yn feichiog, neu o bosibl yn feichiog, neu'n bwydo ar y fron, i gynnwys iaith rywedd-gynhwysol.	Mae'n ofynnol i'r Cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio a diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer holi am feichiogrwydd i gynnwys iaith rywedd-gynhwysol.	IR(ME)R 2017 Rheoliad 6(1)(a) Atodlen 2 (1)(c)	Caiff Gweithdrefn 8 y cyflogwr ei hadolygu a'i diwygio i gynnwys iaith rywedd-gynhwysol.	Radiograffydd Arolygu'r Safle / Pennaeth Radioleg / Dirprwy Bennaeth Radioleg / Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol	31 Mai 2024
Gwelsom fod angen cofnodi rhagor o fanylion am y broses archwilio clinigol.	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff canlyniadau a newidiadau i ymarfer yn dilyn archwiliadau clinigol eu dogfennu'n glir ar gyfer y timau aml-ddisgyblaethol ym mhob rhan o'r adran er mwyn gwneud yn siŵr bod yr archwiliadau yn dangos y cynlluniau gweithredu, y trefniadau ailarchwilio a'r pwyntiau dysgu yn	IR(ME)R 2017 Rheoliad 7	1. Rhannu'r templed ar gyfer archwiliadau yn eang ar draws safleoedd Radioleg y Bwrdd Iechyd ac yn ystod y Cyfarfod Archwilio Clinigol.	Cyfarwyddwr Clinigol yr Adran Radioleg	31 Awst 2024

	ddigonol. Dylid rhoi templed cyson ar waith ar gyfer adroddiadau archwilio ar gyfer pob archwiliad clinigol a gaiff ei gynnal gan yr adran radioleg ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.		2. Adolygu cydymffurfiaeth â'r templed ar gyfer archwiliadau ar ôl y Cyfarfod Archwilio Clinigol ym mis Gorffennaf 2024.		
Ni welsom ddigon o dystiolaeth i ddangos bod system rheoli dogfennau effeithiol a chyson ar waith ar gyfer dogfennaeth, gan gynnwys polisiau, gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig.	Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod pob darn o ddogfennaeth ysgrifenedig sydd ar waith yn cynnwys y manylion gofynnol fel y nodir yng ngweithdrefn y cyflogwr ar gyfer rheoli dogfennau o dan y rhaglen Sicrhau Ansawdd.	IR(ME)R 2017 Rheoliad 6 (5) (b)	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae angen dod o hyd i system rheoli dogfennau. 2. Datrysiaid interim - caiff y polisiau a'r gweithdrefnau a rennir ar bapur ac yn electronig (yn lleol ac i'r bwrdd iechyd cyfan) eu hadolygu a'u diwygio gan ddefnyddio proses rheoli fersiynau sy'n cyrraedd yr un safon â Gweithdrefn 14 y Cyflogwr. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Pennaeth Radioleg / Dirprwy Bennaeth Radioleg 2. Radiograffydd Arolygu'r Safle 	<p>31 Rhagfyr 2024</p> <p>I'w weithredu ar unwaith - 31/12/24</p>

<p>Cadarnhaodd AGIC fod y broses o roi hawliau yn cael ei chynnal yn unol â gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer deiliaid dyletswydd sydd wedi ymuno â'r adran radioleg yn ddiweddar o dan y tîm rheoli newydd ar gyfer radioleg. Ni welsom dystiolaeth ddigonol i ddangos bod y broses hon wedi cael ei dilyn a'i chynnal yn gyson ar gyfer deiliaid dyletswydd a ymunodd â'r ysbyty fel atgyfeirwyr, ymarferwyr neu weithredwyr yn y gorffennol.</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i reoli hawliau pob deiliad dyletswydd (meddygol, anfeddygol a thrydydd parti ym mhob rhan o'r safle). Rhaid iddo ddarparu cynllun gweithredu sy'n nodi pryd y bydd y broses hon yn cael ei chwblhau a'r trefniadau lliniaru sydd ar waith yn y cyfamser i hyrwyddo diogelwch cleifion.</p>	<p>IR(ME)R 2017 Rheoliad 6, Atodlen 2 (1) (b)</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd atgyfeirwyr anfeddygol yn cael adolygiadau parhaus ddwywaith y flwyddyn. Caiff atgyfeirwyr anfeddygol hanesyddol eu nodi a dilynir yr un broses. 2. Caiff yr holl atgyfeirwyr meddygol/trydydd parti eu nodi drwy roi'r system PACS a RIS newydd ar waith, a fydd yn newid yn llwyr i system atgyfeiriadau electronig. 3. <u>Camau lliniaru</u> Wrth i ni aros am y system RISP newydd rydym wedi bod yn 	<p>Dirprwy Bennaeth Radioleg</p> <p>Dirprwy Bennaeth Radioleg</p> <p>Cyfarwyddwr Meddygol/ Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a</p>	<p>1 Medi 2024</p> <p>31 Rhagfyr 2025</p> <p>31 Mai 2024</p>
---	---	---	--	--	--

			<p>defnyddio system ceisiadau electronig sy'n cofnodi atgyfeirwyr o bob gradd, ac ni ellir ychwanegu atgyfeirwyr at y system oni bai eu bod yn meddu ar hawliau atgyfeiriwr anfeddygol/Cyngor Meddygol Cyffredinol/Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Cawn restr o feddygon sylfaen drwy'r trefniadau staffio meddygol, a chaiff y rhestr hon ei hystyried gan radiograffwyr cyn derbyn ceisiadau. Anfonir gohebiaeth Bwrdd lechyd cyfan bob chwe</p>	<p>Gwyddor lechyd/ Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf</p>	
--	--	--	---	---	--

			<p>mis gan y Cyfarwyddwr Meddygol / Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd / Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf at bob atgyfeiriwr meddygol ac anfeddygol sy'n gweithio yn eu timau, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth atgyfeirio a'r hyfforddiant gofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.</p>	
--	--	--	--	--

			Caiff hyn hefyd ei rannu ar ffurf “canllaw cyflym ar gymorth e-IRMER ar gyfer Radioleg” ac ar y fewnrwyd gyffredinol.		
Ni chafwyd sicrwydd digonol bod gwybodaeth briodol a chyfredol am hyfforddiant a chymhwysedd yn cael ei chofnodi, ei chynnal na'i monitro ar gyfer rhai atgyfeirwyr anfeddygol ac yn benodol pan oedd y gwerthusiad hwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn trin cleifion.	Rhaid i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adolygu a diweddarau'r broses o gynnal gwerthusiadau clinigol gan atgyfeirwyr anfeddygol er mwyn sicrhau y caiff hyfforddiant cyfredol a phriodol ei gynnal ar sut i gynnal gwerthusiadau clinigol mewn perthynas â radiograffeg o'r frest a radiograffeg gyffredinol gyhyrsgerbydol.	IR(ME)R 2017 Rheoliad 17(1) Rheoliad 17(4) Rheoliad 6, Atodlen 2 (1) (b)	Bydd pob un o'r atgyfeirwyr anfeddygol sydd wedi nodi eu bod yn gallu gwerthuso lluniau yn glinigol yn cael ei adolygu a chaiff y matrices ei ddiweddarau i adlewyrchu hyn. Byddwn yn cael gafael ar gofnodion hyfforddiant y staff, yn eu harfarnu ac yn eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn. Bydd angen cynnal archwiliadau er mwyn sicrhau bod cymwyseddau yn cael eu cynnal a bod hawliau atgyfeirwyr yn parhau. Bydd achosion o fethu â	Pennaeth Radioleg / Dirprwy Bennaeth Radioleg	31 Awst 2024

darparu'r dogfennau hyn yn cael eu huwchgyfeirio at y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd/ Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod proses barhaus ar waith, lle mae pob atgyfeiriwr anfeddygol yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod pob atgyfeiriwr anfeddygol yn ymgymryd â hyfforddiant cyfredol ac yn rhoi sicrwydd i'r cyflogwyr ei fod wedi'i gwblhau'n unol â'r Polisi Diogelwch Ïoneiddio.

<p>Er bod rhai aelodau o'r staff yn deall ystyr y ddyletswydd gonestrwydd, nid oeddent wedi cael yr hyfforddiant priodol yn gyson.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r ddyletswydd gonestrwydd a'r goblygiadau mewn perthynas â'u rôl.</p>	<p>Effeithiol</p>	<p>Nodwyd hyfforddiant i'w darparu drwy arweinydd y Bwrdd Iechyd ar gyfer hyfforddiant a bydd y staff hefyd yn ymgymryd â hyfforddiant ar-lein er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Gonestrwydd.</p>	<p>Radiograffwyr Arolygu'r Safle / Pennaeth Radioleg / Dirprwy Bennaeth Radioleg / Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol</p>	<p>31 Rhagfyr 2024</p>
<p>Nodwyd gennym y gellid gwella'r iaith a ddefnyddir mewn perthynas â dillad a rhywedd mewn rhai llythyrau. Nid oedd rhai o'r llythyrau i gleifion a welsom yn cynnwys yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg</p>	<p>Dylai'r adran adolygu a diweddarau'r wybodaeth mewn taflenni a llythyrau apwyntiadau er mwyn gwella cynwysoldeb.</p>	<p>Teg</p>	<p>Caiff gwybodaeth i gleifion ei hadolygu a'i diwygio i ddileu iaith rhywedd-benodol ac i wella cynwysoldeb. Caiff y wybodaeth hon ei chyfieithu. Dilynir yr un drefn hefyd ym mhob un o adrannau radioleg y Bwrdd Iechyd.</p>	<p>Radiograffwyr Arolygu'r Safle / Pennaeth Radioleg / Dirprwy Bennaeth Radioleg / Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol</p>	<p>31 Awst 2024</p>
<p>Roedd canlyniadau'r holiadur staff yn awgrymu nad oedd rhai aelodau o'r staff yn</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried canrannau adborth y staff a llunio</p>	<p>Effeithiol</p>	<p>Cymorth parhaus gan yr Adran Datblygu Sefydliadol er mwyn parhau â'r gwaith i wella</p>	<p>Radiograffwyr Arolygu'r Safle / Pennaeth Radioleg / Dirprwy Bennaeth</p>	<p>31 Awst 2024</p>

fodlon ar safon y gofal a ddarperir.	cynllun i fynd i'r afael â'r materion.		cyberthnasau a threfniadau cyfathrebu rhwng adrannau. Caiff y staff eu hannog i roi adborth ar unrhyw bryderon mewn perthynas â safon y gofal a ddarperir a'r fforymau sydd ar gael i alluogi'r staff i awgrymu gwelliannau.	Radioleg / Rheolwr Cyberthnasau Datblygu Sefydliadol	
--------------------------------------	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Gail Roberts-Davies

Teitl swydd: Pennaeth Radioleg

Dyddiad: 10 Ebrill 2024